Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** **Seicolegydd Addysg**

**Lleoliad:** **Gweithiwr Hyblyg**

**Cyfarwyddiaeth:** **Addysg**

**Rhif Swydd:** **BG01284**

**Cyflog:** **Soulbury A 3-8 (£47688 - £57954 y flwyddyn) + pwyntiau asesiad proffesiynol strwythuredig (SPA) presennol**

**Oriau:** **37 yr wythnos**

**Cytundeb:** **Parhaol a llawn amser**

**Hysbyseb Llawn**

Mae Cyfarwyddiaeth Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent am benodi Seicolegydd Addysg yn barhaol o Fis Medi 1af, 2025 neu cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad hwn. Dylai ymgeiswyr fod yn Seicolegyddion Addysg cwbl gymwys fel y cydnabyddir gan yr HCPC, neu Seicolegyddion Addysg o dan Hyfforddiant ar hyn o bryd, ym mlwyddyn 2 neu 3.

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn gweithio mewn ysgolion a lleoliadau eraill i gefnogi plant a phobl ifanc. Crynhoir ein gwaith gan ein tair neges allweddol:

- meithrin gallu gan ddefnyddio dulliau systemig sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
- ymgynghori â staff ysgol ac eraill i 'ddatod' rhwystrau i ddysgu; a,
- gweithio ar lefel unigol, wedi'i lywio gan ddamcaniaethau ac ymarfer seicolegol a therapiwtig.

Mae'r Gwasanaeth yn cyfrannu at ystod eang o fentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yn aml ar sail aml-asiantaeth. Tîm bach, meithringar yr ydym, ac mae pawb yn cael eu hannog i ddatblygu maes o ddiddordeb arbennig.

Lleolir Blaenau Gwent yn ne Cymru, yn ffinio â Pharc Cenedlaethol hardd y Bannau Brycheiniog. Mae cysylltiadau trafnidiaeth rhagorol ar hyd yr A465, M4 a'r rhwydwaith rheilffyrdd yn dod â Chaerdydd, Casnewydd ac Abertawe o fewn cyrraedd hawdd.

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol am y swydd cysylltwch â:
Dr Robert Smith (Prif SA) (robert.smith@blaenau-gwent.gov.uk) neu Rebecca Foster (Uwch SA) (rebecca.foster@blaenau-gwent.gov.uk).

Mae mynediad i gerbyd at ddibenion gwaith yn ofynnol.

Cynhelir sgrinio cyn cyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad o Gofnodion Troseddol.

Dyddiad Cau: 29/04/25

Llunio Rhestr Fer: 30/04/25

Dyddiad Cyfweliad: 07/05/25